Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Adroddiad: CLA(4)-08-11 : 17 Hydref 2011**

**Mae adroddiadau'r Pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:**

**Offerynnau sy'n arwain at faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3**

**Offerynnau'r penderfyniad negyddol**

**CLA46 - Rheoliadau Ymchwiliadau Lleol, Ymchwiliadau Cymwys a Gweithdrefnau Cymwys (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2011**
**Gweithdrefn:** Negyddol
**Fe'u gwnaed:** 3 Hydref 2011
**Fe'u gosodwyd**: 4 Hydref 2011
**Yn dod i rym**: 1 Ebrill 2012

Cytunodd y Pwyllgor ar y pwyntiau adrodd ar yr offeryn statudol hwn o dan Reol Sefydlog 21.3. Ceir copi ohono yn Atodiad 1.

**Gohebiaeth y Pwyllgor**

**CLA20 - Rheoliadau Dosbarthu Carcasau Eidion a Moch (Cymru) 2011**

Nododd y Pwyllgor ymateb y Gweinidog i lythyr y Cadeirydd dyddiedig 23 Medi 2011.

**CLA31 - Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu wrth Dderbyn i'r Cyfnod Sylfaen) (Cymru) 2011**

Nododd y Pwyllgor ymateb y Gweinidog i lythyr y Cadeirydd dyddiedig 27 Medi 2011. Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r Cadeirydd ymateb i'r Gweinidog yn gofyn iddi hysbysu'r Pwyllgor yn ysgrifenedig os caiff y pwerau o dan Erthygl 5 eu defnyddio eto yn y dyfodol.

**CLA42 - Rheoliadau Amddiffyn rhag Tybaco (Gwerthiannau o Beiriannau Gwerthu) (Cymru) 2011**

Nododd y Pwyllgor ymateb y Gweinidog i lythyr y Cadeirydd dyddiedig 5 Hydref 2011.

**CLA19 - Rheoliadau Cymwysterau a Chofrestru Prifathrawon (Cymru) (Diwygio) 2011**

Nododd y Pwyllgor ymateb y Gweinidog i lythyr y Cadeirydd dyddiedig 27 Medi 2011.

**CLA17 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) (Diwygio) 2011**

Nododd y Pwyllgor ymateb y Gweinidog i lythyr y Cadeirydd dyddiedig 27 Medi 2011.

**Busnes arall**

**Ymchwiliadau'r Pwyllgor: Ymchwiliad i roi pwerau i Weinidogion Cymru yn Neddfau'r DU**

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan David Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cymreig, a Paul Evans, Clerc y Swyddfa Gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin.

**Penderfyniad i gwrdd yn breifat**

Yn unol â Rheol Sefydlog 17.42(vi), penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod i drafod y dystiolaeth a gyflwynwyd hyd yma i'r ymchwiliad i roi pwerau i Weinidogion Cymru yn Neddfau'r DU.

**David Melding AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**17 Hydref 2011**

**Atodiad 1**

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**(CLA(4)-08-11)**

**CLA46**

**Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Teitl: Rheoliadau Ymchwiliadau Lleol, Ymchwiliadau Cymwys a Gweithdrefnau Cymwys (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2011**

**Gweithdrefn: Negyddol**

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r symiau dyddiol safonol y caiff Gweinidogion Cymru eu hadennill am bob diwrnod—
(a) y bydd ymchwiliad lleol yn eistedd neu y bydd y person a benodwyd i gynnal yr ymchwiliad lleol wrthi rywfodd arall yn gwneud gwaith sy'n gysylltiedig â'r ymchwiliad lleol; neu
(b) y bydd y person a benodwyd i ymgymryd ag ymchwiliad cymwys neu, yn ôl fel y digwydd, gweithdrefn gymwys, wrthi yn gwneud gwaith sy'n gysylltiedig â'r ymchwiliad cymwys neu'r weithdrefn gymwys.

**Materion technegol: craffu**

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn

**Rhinweddau: craffu**

<u>Asesiad Effaith Rheoleiddiol</u>

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi nad oes angen Asesiad Effaith Rheoleiddiol gan mai bwriad y diwygiad yw cynyddu'r ffïoedd statudol. Fodd bynnag, pan uwchraddiwyd y ffïoedd hyn ddiwethaf (yn 2007), darparwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

<u>Cyfrifo lefelau newydd y ffi</u>

Nid oes gwybodaeth yn y Memorandwm Esboniadol sy'n esbonio sut y cyfrifwyd y cynnydd mewn ffïoedd, cyfanswm yr incwm ychwanegol yr amcangyfrifir a gaiff ei godi o ganlyniad i'r cynnydd a'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar gyllidebau a chronfeydd llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru.

<u>Ystyriaeth gan y Pwyllgor</u>

Mae'r Pwyllgor yn pryderu ynghylch y diffyg esboniad o'r materion uchod yn y Memorandwm Esboniadol a'r diffyg Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Ym marn y Pwyllgor, pan fydd is-ddeddfwriaeth yn gosod ffïoedd newydd neu ychwanegol ar gyrff preifat neu gyhoeddus, neu unigolion, dylid cael esboniad hunangynhwysol i gyd-fynd â hi sy'n esbonio sut y cyfrifwyd y ffïoedd neu'r costau ychwanegol a beth fydd effaith ehangach y newidiadau ar y cyrff neu'r unigolion dan sylw. Mae'r Pwyllgor yn cytuno bod y wybodaeth yn y Memorandwm Esboniadol yn annigonol i'r diben hwn.

Cytunodd y Pwyllgor fod hyn yn codi pwynt polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad a chytunodd i ddwyn y mater i sylw'r Cynulliad mewn adroddiad o dan Reol Sefydlog 21.3(ii).

**David Melding AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**17 Hydref 2011**